



Housing LIN

Connecting people, ideas and resources

Asesiad o'r galw am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru

Adroddiad i Lywodraeth Cymru

Ionawr 2020

THE HOUSING LEARNING & IMPROVEMENT NETWORK

Reuben Hastings, Ian Copeman & Jeremy Porteus

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	3
1. Rhagarweiniad	5
2. Cyd-destun: cartrefu poblogaeth sy'n heneiddio	6
3. Asesu'r galw am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn.....	10
Dull.....	10
Demograffeg.....	13
Y ddarpariaeth bresennol a dadansoddiad cymharol.....	14
Data cyd-destunol a thylbiaethau	17
Cafeatau a chyfyngiadau	20
4. Amcangyfrif o'r galw am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn.....	22
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Blaenau Gwent.....	23
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Pen-y-Bont ar Ogwr.....	25
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Caerffili.....	27
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Caerdydd.....	29
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Sir Gaerfyrddin.....	31
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Ceredigion.....	33
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Conwy.....	35
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Sir Ddinbych.....	37
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Sir y Fflint	39
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Gwynedd	41
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Ynys Môn	43
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Merthyr Tudful.....	45
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Sir Fynwy	47
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Castell Nedd Port Talbot	49
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Casnewydd	51
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Sir Benfro.....	53
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Powys.....	55
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Rhondda Cynon Taf.....	57
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Abertawe	59
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Torfaen.....	61
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Bro Morgannwg	63
Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Wrecsam.....	65
5. Crynodeb: y galw am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.....	67
Atodiad 1. Y briff	71
Atodiad 2. Tystiolaeth gyd-destunol: bwriadon comisiynu awdurdodau lleol	72
Atodiad 3. Amcangyfrif anghenion yn y dyfodol: dadansoddiad deiliadaeth	80
Atodiad 4. Enghreifftiau o dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn.....	82

Crynodeb gweithredol

Adroddiad gan yr Housing Learning & Improvement Network (Housing LIN)¹ yw hwn. Mae'n adnabod y ddarpariaeth bresennol a'r galw yn y dyfodol tan 2035 am wahanol fathau o dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn.

Cyd-destun

Mae Cymru yn gymdeithas sy'n heneiddio, gyda 841,645 o bobl dros 60 oed², sef tua 27% o'r boblogaeth. Disgwylir i hyn gynyddu i dros filiwn erbyn 2030. Disgwylir i'r boblogaeth dros 75 oed gynyddu mwy na 54% rhwng 2018 a 2035.

Mae ymrwymadau Llywodraeth Cymru yn y Rhaglen Lywodraethu, sef Symud Cymru Ymlaen (2016) sy'n gosod amcanion lefel uchel y Llywodraeth, a Ffyniant i Bawb (2017) sy'n gwneud ymrwymadau penodol ynglŷn ag amcanion y Llywodraeth, gan gynnwys ymrwymadau sy'n ymwneud â phobl hŷn drwy'r themâu tai a gofal cymdeithasol. Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru newydd wedi codi'r her o fynd i'r afael ag anghenion a dyheadau pobl hŷn yng Nghymru ac i ehangu'r ystod o ddewisiadau tai sydd ar gael i bobl hŷn³.

Dull

Mae'r Housing LIN wedi defnyddio'i fodel 'Strategic Housing for Older People', SHOP@⁴ i amcangyfrif y galw yn y dyfodol am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn.

Defnyddir tystiolaeth gyd-destunol, megis cynlluniau comisiynu awdurdodau lleol a thystiolaeth o ddewisiadau tai pobl hŷn, yn ogystal â phrofiad yr Housing LIN o weithio gydag awdurdodau lleol mewn perthynas â llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn, fel sail i wneud tybiaethau rhesymegol mewn perthynas ag amcangyfrif'r galw am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn, fesul awdurdod lleol, hyd at 2035.

Diffinnir y gwasanaethau tai a llety arbenigol a ddefnyddir yn yr asesiad galw yma fel a ganlyn (rhoddi enghreifftiau yn Atodiad 4):

- **Tai ar gyfer pobl hŷn:** tai gwarchod cyfoes a thai sy'n oedran ddynodedig am rent cymdeithasol a thai ymddeol ar werth. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau gyda gwasanaethau cymorth staff preswyl, rhai gyda gwasanaethau cymorth yn yr ardal a chynlluniau heb wasanaethau cymorth.

¹ www.housinglin.org.uk

² <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-region-age>

³ <https://www.housinglin.org.uk/blogs/A-window-of-opportunity-for-change/>

⁴ <https://www.housinglin.org.uk/Topics/browse/HousingExtraCare/ExtraCareStrategy/SHOP/SHOPAT/>

- **Tai â gofal:** yn cynnwys tai gofal ychwanegol am rent cymdeithasol a thai gofal ychwanegol ar werth (a elwir yn aml yn 'fyw gyda chymorth' yn y sector preifat) gyda gofal ar gael ar y safle 24/7.
- **Gofal preswyl:** llety preswyl â gofal personol, hynny yw, cartref gofal.
- **Gofal â nyrsio:** llety preswyl â gofal nyrsio, hynny yw, cartref preswyl â nyrsio.
- Mae '**Cam-i-fyny**' yn swyddogaeth gofal canolraddol i dderbyn cleifion o'r cartref neu'r gymuned er mwyn osgoi derbyniadau diangen i ysbyty aciwt neu dderbyniadau cynamserol i ofal tymor hir. Mae '**Cam-i-lawr**' yn swyddogaeth gofal canolraddol i dderbyn cleifion o ofal aciwt ar gyfer adsefydlu ac i gefnogi rhyddhau amserol o'r ysbyty.

Mae hyn yn ymarferiad bwrdd gwaith sy'n defnyddio data eilaidd i gynhyrchu amcangyfrifon lefel uchel o'r galw yn y dyfodol am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn. Felly, dylid defnyddio'r asesiad hwn fel *canllaw* i'r galw yn y dyfodol am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn. Byddai mireinio'r asesiad yn golygu gwaith ymchwil pellach sydd y tu hwnt i'r briff ar gyfer y gwaith hwn, er enghraifft, ymchwil ansoddol gyda phobl hŷn ynglŷn â'u dewisiadau tai; trafodaeth fanwl gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â ffactorau lleol a allai effeithio ar y galw yn y dyfodol.

Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol am dai a llety arbenigol

Mae'r asesiad hwn o'r galw yn y dyfodol yn amcangyfrif y bydd diffyg erbyn 2035 o:

- Tua 15,000 uned o **dai ar gyfer pobl hŷn**, yn benodol:
 - 5,000 uned o dai cymdeithasol oedran ddynodedig
 - 5,000 uned o dai gwarchod cyfoes am rent cymdeithasol
 - 5,000 uned o dai ymddeol ar werth
- Tua 5,000 uned o **dai â gofal**:
 - 3,500 uned o dai â gofal ychwanegol am rent cymdeithasol
 - 1,500 uned o dai â gofal ychwanegol ar werth (gan gynnwys rhanberchnogaeth)
- Tua 7,000 o welyau gyda **gofal nyrsio**
- Dim galw net am fwy o welyau **gofal preswyl**
- Tua 120 o unedau tai **cam-i-fyny/cam-i-lawr**

1. Rhagarweiniad

1.01. Adroddiad yw hwn gan y Housing Learning & Improvement Network (LIN)⁵ yn seiliedig ar friff oddi wrth Llywodraeth Cymru a thrafodaeth gyda gweision sifil.

1.02. Y briff yw i adnabod y ddarpariaeth bresennol a'r galw yn y dyfodol hyd at 2035 am wahanol fathau o dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn. Ceir y briff cyfan yn Atodiad 1.

1.03. Mae'r adroddiad yn cynnwys:

- Crynodeb o'r cyd-destun polisi perthnasol sy'n dylanwadu ar ddatblygiad tai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn.
- Y dull a ddefnyddir i amcangyfrif'r galw yn y dyfodol am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn, gan gynnwys y rhagdybiaethau a ddefnyddir.
- Y cafeatau sy'n berthnasol i'r asesiad meintiol bwrdd gwaith o'r galw am dai a llety arbenigol i bobl hŷn a'i ddefnydd.
- Amcangyfrif o'r galw am dai a llety arbenigol i bobl hŷn yn y dyfodol hyd at 2035 ar gyfer pob awdurdod lleol.
- Crynodeb o'r galw am dai a llety arbenigol i bobl hŷn yn y dyfodol hyd at 2035 ar draws Cymru.

Gwybodaeth am yr Housing LIN

1.04. Mae'r Housing LIN yn 'labordy dysgu' blaenllaw ar gyfer rhwydwaith o 25,000+ o bobl proffesiynol tai, iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Lloegr, yr Alban a Chymru. Bu'n gyfrifol am reoli £227 miliwn y Gronfa Tai Gofal Ychwanegol ar ran Adran Iechyd Llywodraeth y DU. Mae'r Housing LIN yn tynnu ar yr arbenigedd o fewn y rhwydwaith yma ac fe'i cydnabyddir a'i gefnogi yn genedlaethol a lleol gan brif ffigurau o fewn diwydiant, ymchwil a chyrrff proffesiynol.

1.05. Yng Nghymru, mae Housing LIN Cymru yn rhwydwaith bywiog sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac yn cynhyrchu ystod o adnoddau sy'n rhoi enghreifftiau o arfer gorau wrth greu ystod well o ddewisiadau tai a gofal ar gyfer pobl hŷn a phobl gydag anabledd. Gellir darganfod mwy am ein gweithgareddau dysgu a gwella ar ein gwefan:

<https://www.housinglin.org.uk/HousingRegions/Wales/>

⁵ www.housinglin.org.uk

2. Cyd-destun: cartrefu poblogaeth sy'n heneiddio

- 2.01 Mae Cymru yn gymdeithas sy'n heneiddio, gyda 841,645 o bobl dros 60 oed, sef tua 27% o'r boblogaeth⁶. Disgwylir i hyn gynyddu i dros filiwn erbyn 2030. Disgwylir i'r boblogaeth dros 75 oed gynyddu mwy na 54% rhwng 2018 a 2035.
- 2.02 Yn y cyd-destun yma, fe wnaeth Heléna Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, godi'r her o fynd i'r afael ag anghenion a dyheadau tai pobl hŷn yng Nghymru. Yn ei blog gwadd i'r Housing LIN⁷ mae'n galw am ystod well o ddewisiadau tai ar gyfer pobl hŷn fel y gall Cymru fod y lle gorau yn y byd i heneiddio.
- 2.03 Yn ddiamau, mae cyd-destun polisi clir sy'n ymwneud â chefnogi safon bywyd da ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ail fframio cyfrifoldebau awdurdodau lleol a'u partneriaid yng Nghymru. Mae'n pwysleisio hybu llesiant ac atal neu ohirio'r angen am ymyriadau gofal a iechyd ffurfiol. Un o brif amcanion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw i alluogi pobl wrth iddynt heneiddio, i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag sicrhau a chynnal llesiant personol ac i wneud hynny, cyn belled ag y bo modd, heb orfod troi at ymyriadau gofal cymdeithasol ffurfiol.
- 2.04 Mae cartrefi o ansawdd gwell ac yn y lleoliad iawn yn galluogi pobl i fyw gartref yn hirach. Mae ganddo'r potensial i greu cymunedau mwy cadarn ac ymgysylltiedig a dylid ei weld fel elfen hanfodol o gyflawni'r weledigaeth yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 2.05 Mae'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru yn gosod uchelgais bod "*gan bobl hŷn fynediad at gartrefi a gwasanaethau sy'n cefnogi eu hanghenion ac sy'n hybu eu hannibyniaeth*"⁸. Un o'r deilliannau yn y Fframwaith o Ddeilliannau Cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalmwr sydd angen cefnogaeth (Mawrth 2016) yw: "*Rwy'n byw mewn cartref sy'n fy ngalluogi i gyflawni fy llesiant.*"
- 2.06 Mae ymrwymadau Llywodraeth Cymru yn y Rhaglen Lywodraethu, sef Symud Cymru Ymlaen (2016) sy'n gosod amcanion lefel uchel y Llywodraeth, a Ffyniant i Bawb (2017) sy'n gwneud ymrwymadau penodol ynglŷn ag amcanion y Llywodraeth, gan gynnwys ymrwymadau sy'n ymwneud â phobl hŷn drwy'r themâu tai a gofal cymdeithasol. Yn benodol, mae Ffyniant i Bawb yn cynnwys:
- *Mae gan dai da rôl hollbwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod pobl yn parhau'n iach ac yn annibynnol wrth heneiddio. Mae galluogi pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi am gyfnod hirach yn arwain at fanteision sylweddol o ran iechyd a hefyd at fanteision cymdeithasol ac economaidd pwysig. Mae angen y math priodol o dai arnom yn y manau priodol ac mae angen iddynt weddu i anghenion pobl. Bydd rhai ohonynt*

⁶ ibid

⁷ <https://www.housinglin.org.uk/blogs/A-window-of-opportunity-for-change/>

⁸ Welsh Government Strategy for Older People in Wales 2013 – 2023

yn cael eu hadeiladau i'r pwrpas, a bydd anghenion pobl eraill yn cael eu diwallu drwy addasu cartrefi sy'n bodoli eisoes.

- *cymell darparwyr tai i adeiladu cartrefi sy'n ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio ac sy'n galluogi pobl i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hirach.*
- *adeiladu rhagor o ddatblygiadau tai a godir i'r pwrpas ac a fyddai'n caniatáu i bobl fyw'n annibynnol mewn amgylchedd gwarchodedig a gwarchodol, yn agos at drafnidiaeth gyhoeddus hygyrch.*

2.07 Mae'r Adroddiad gan y Grŵp Arbenigol ar Ddarparu Tai ar gyfer Poblogaeth sy'n Heneiddio i Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2017, yn nodi yn benodol rôl tai i gefnogi poblogaeth sy'n heneiddio ac yn arbennig yr angen i ddatblygu mathau mwy dymunol o dai y gellir ymgynhyrchu atynt wedi'u hanelu at bobl hŷn⁹. Wedi'i gadeirio gan yr Athro Judith Phillips, gynt o Brifysgol Abertawe (bellach ym Mhrifysgol Stirling), amlygodd adroddiad y Grŵp Arbenigol nifer o faterion a dyheadau mewn perthynas ag ehangu'r ystod o ddewisiadau tai sydd ar gael i bobl hŷn yng Nghymru. I grynhoi:

- Nid yw'r cyflenwad tai yng Nghymru yn adlewyrchu'r dewisiadau am y ffordd o fyw y mae pobl eisiau neu angen wrth iddynt heneiddio.
- Mae angen cymysgedd da o dai fforddiadwy a phreifat i brynu neu renti, wedi eu dylunio yn ôl egwyddorion HAPPI¹⁰ (Housing our Ageing Population: Panel for Innovation), sef eu bod yn 'oedran-gyfeillgar' ac yn 'barod am ofal'.
- Dylai Cymru fod yn fwy uchelgeisiol, hynny yw, bod yn wlad ble mae'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i arloesi a chyd-greu cyfleon tai fydd yn cwrdd ag anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.
- Yr angen am arloesi a buddsoddi mewn ystod ehangach o opsiynau tai sy'n hybu llesiant a lleihau'r gofynion ar wasanaethau iechyd a gofal. Mae angen partneriaeth agosach rhwng Tai, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r trydydd sector i gyflawni hyn.
- Osgoi mynd am un ateb i bawb. Yn arbennig, dylai awdurdodau lleol anelu at ddatblygu gwell ddealltwriaeth strategol o anghenion tai gwahanol grwpiau a chymunedau, yn arbennig y rhai mwyaf agored i niwed a difreintiedig, a chynllunio a hyrwyddo gwell ddewisiadau tai.
- Dylai systemau cynllunio awdurdodau lleol flaenoriaethu datblygu ar gyfer pobl hŷn.
- Mae gofyn ar y gwahanol randdeiliaid i ysgogi'r farchnad, a chreu galw gydag atebion arloesol a chynnig dewis i bobl hŷn.
- Mae mynediad i wybodaeth, cymorth a chynngor yn allweddol. Mae angen gwybodaeth ar bobl hŷn a'u teuluoedd er mwyn rhoi cymorth iddynt wneud y dewisiadau tai ar yr amser iawn ac yn y ffordd iawn.

⁹ Grŵp Arbenigol ar Ddarparu Tai ar gyfer Poblogaeth sy'n Heneiddio (2017) Llywodraeth Cymru.

¹⁰ <https://www.housinglin.org.uk/Topics/browse/Design-building/HAPPI/>

- Y mae mwy fyth o angen i lywodraeth weithredu yn yr ardaloedd yna o Gymru ble mae adeiladwyr tai yn credu bod datblygu yn aneconomaidd. Yn yr ardaloedd hynny, dylai fod asiantaethau cyhoeddus yn barod i ystyried cymhellion ariannol er mwyn sicrhau bod datblygu yn ariannol hyfyw a bod gan berchnogion tai gymhelliad i symud.

2.08 Er y bwriedir i adroddiad y Grŵp Arbenigol gyrraedd cynulleidfia eang, mae llawer o'r testun a'r camau wedi'u hanelu at awdurdodau lleol a'u partneriaid.

2.09 Yn fwy diweddar, mae adroddiad tair gwlad¹¹ o Brifysgol Stirling yn argymhell y dylai tai gael rôl canolog wrth ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn. Y mae'n galw hefyd am adeiladu mwy o dai addasadwy a fforddiadwy; buddsoddiad mewn ymyriadau cynnar; ac ymgynghori ystyrion â phobl hŷn. Fe wnaeth hefyd adnabod nodweddion sy'n unigryw i Gymru, gan gynnwys:

- Amrywiaeth yn lle mae'r boblogaeth sy'n heneiddio yn byw, gyda chrynodiadau o bobl hŷn mewn lleoliadau gwledig a chymunedau'r Cymoedd yn Ne Cymru.
- Mae cyfran uchel o'r boblogaeth yn darparu gofal dwys di-dâl yn y DU, yn arbennig yn ardaloedd ôl-ddiwydiannol De Cymru.
- Mae meysydd allweddol eraill a adnabuwyd yn cynnwys:
 - Deall anghenion a dewisiadau pobl hŷn.
 - Cynyddu dewis yn y farchnad dai.
 - Defnyddio technoleg i fod yn arloesol wrth ddylunio tai.
 - Sicrhau bod cynllunio yn blaenoriaethu anghenion pobl hŷn, a
 - Gwneud tai yn fwy fforddiadwy ac ysgogi newid.

2.10 Bu diddordeb cynyddol mewn partneriaethau iechyd a thai. Canfu adroddiad 2015 ar dai gofal ychwanegol yng Nghymru gan yr Housing LIN¹² mai prin yw'r enghreifftiau o wasanaethau tai gofal ychwanegol yn gweithio mewn partneriaeth â iechyd, ac mae cyfle i gynnig, er enghraifft:

- Gwasanaethau cam-i-fyny a cham-i-lawr o fewn datblygiadau tai er mwyn osgoi mynediad i'r ysbyty neu sy'n hyrwyddo rhyddhau cleifion o'r ysbyty.
- Cyfleusterau i leoli gwasanaethau iechyd cymunedol o fewn cymunedau.
- Safle ar gyfer mentrau iechyd cyhoeddus sy'n gweithio gyda chyrff a chymunedau lleol.

2.11 Mae Cronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru (gynt y Gronfa Gofal Canolraddol) yn fodd i gefnogi cyflawni gwahanol gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a

¹¹<https://www.housinglin.org.uk/assets/Resources/Housing/OtherOrganisation/HousingAndAgeingReport.pdf>

¹² <https://www.housinglin.org.uk/Topics/type/Extra-Care-Housing-in-Wales-A-state-of-the-nation-report/>

Llesiant (Cymru) 2014 ac i helpu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) gyflawni'r weledigaeth a geir yn Cymru Iachach: ein cynllun iechyd a gofal cymdeithasol¹³.

2.12 Mae ymrwymadau eraill yn Ffyniant i Bawb yn cyfeirio at integreiddio cynllunio cyfalaf a gwasanaethau, gyda'r ddau yn gallu cyfrannu yn sylweddol at atebion tai i bobl hŷn sydd wedi'u lleoli yn agos at wasanaethau ac wedi'u cefnogi gan wasanaethau cyhoeddus integredig. Mae'r ymrwymadau hyn yn cynnwys:

- *newid y modd y darperir gwasanaethau iechyd a gofal drwy eu darparu o fewn cymunedau ac mewn mannau heblaw ysbytai, gan newid y pwyslais o drin salwch i lesiant.*
- *cydgysylltu rhaglenni cyfalaf tai, iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn darparu llety a gofal nyrsio arloesol a fforddiadwy, gan adeiladu ar y Gronfa Gofal Integredig.*
- *yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, cyrff iechyd, cymdeithasau tai a phartneriaid allweddol eraill gynllunio cartrefi, cyfleusterau a seilwaith newydd mewn ffordd gydgysylltiedig.*

¹³ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/yn-gryno-cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>

3. Asesu'r galw am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn

Dull

- 3.01 Mae'r Housing LIN wedi defnyddio ei fodel 'Strategic Housing for Older People', SHOP@¹⁴, i amcangyfrif y galw am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yn y dyfodol. Datblygodd yr Housing LIN SHOP@ yn wreiddiol gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion (ADASS) yn Lloegr a'r Elderly Accommodation Counsel (EAC) ar gyfer Fforwm Datblygu'r Farchnad Adran Iechyd Llywodraeth y DU, er mwyn cefnogi awdurdodau lleol i ragweld y galw am dai a llety pobl hŷn.
- 3.02 Diweddarwyd SHOP@ dros amser fel bod y dull yn gwella ar y defnydd blaenorol o meincnodau generig cenedlaethol i ragweld y galw yn y dyfodol ar lefel awdurdodau lleol.
- 3.03 Cynhyrchwyd dadansoddiad cymharol sy'n cymharu'r cyflenwad presennol neu'r nifer o wahanol fathau o dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru (tai sy'n oedran ddynodedig/tai gwarchod am rent, tai ymddeol preifat ar werth, tai gofal ychwanegol am rent ac ar werth, darpariaeth gofal preswyl a gofal preswyl â nyrsio), drwy gymharu'r ddarpariaeth bresennol ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol, ynghyd â chyfartaleddau cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer darpariaeth o dai a llety arbenigol i bobl hŷn. Mae hyn yn dangos sut mae'r ddarpariaeth mewn awdurdod lleol yn cymharu ag awdurdodau lleol eraill ac â'r cyfartaledd Cymreig cyffredinol (adrannau 3.08-3.11).
- 3.04 Er mwyn teilwra'r asesiad angen tai hwn ar gyfer y cyd-destun Cymreig, rydym wedi ystyried, lle bo'r data ar gael, tueddiadau perthnasol a thystiolaeth arall a all ddylanwadu ar y galw yn y dyfodol am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn (Atodiad 2), er enghraifft:
- Datganiadau safle'r farchnad a strategaethau comisiynu a gyhoeddwyd gan awdurdodau lleol neu Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) sy'n cyfeirio at amcangyfrifon, targedau neu ddatganiadau tebyg mewn perthynas â thai a llety pobl hŷn.
 - Datganiadau awdurdodau lleol a gyhoeddwyd ynglŷn â defnydd presennol a'r defnydd a fwriedir o, er enghraifft, gwelyau gofal preswyl neu ofal preswyl â nyrsio ar gyfer pobl hŷn.
 - Tystiolaeth sydd ar gael am ddefnydd a datblygiad unedau llety cam-i-fyny a cham-i-lawr, e.e. o gyhoeddiadau awdurdodau lleol neu Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
 - Y dystiolaeth sydd ar gael o unrhyw ymchwil ansoddol gyda phobl hŷn am y math o ddewisiadau tai a llety y mae'n well ganddynt yn y dyfodol yng Nghymru ac ar draws y DU. Er enghraifft, mae'r Housing LIN wedi cyflawni'r fath ymchwil yn ddiweddar gyda Chaerdydd a Bro Morgannwg a gydag awdurdodau lleol eraill ar draws Prydain.

¹⁴ www.housinglin.org.uk/SHOP

3.05 Cynhyrchwyd amcangyfrifon meintiol o'r galw am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yn y dyfodol yn seiliedig ar y dull canlynol:

- Data sy'n dangos y cyflenwad presennol neu fynychder tai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru ym mhob awdurdod lleol ac wedi'i grynhoi ar lefel cenedlaethol (adrannau 3.08-3.11; tabl 2). Mae gennym y data hyn drwy bartneriaeth â'r Elderly Accommodation Counsel¹⁵.
- Diffinnir y mathau gwahanol o dai a llety arbenigol a drafodir yn yr asesiad galw hwn fel a ganlyn (rhoddir enghreifftiau yn Atodiad 4):
 - **Tai ar gyfer Pobl Hŷn:** tai gwarchod cyfoes a thai sy'n oedran ddynodedig am rent cymdeithasol a thai ymddeol ar werth. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau gyda gwasanaethau cymorth staff preswyl, rhai gyda gwasanaethau cymorth yn yr ardal a chynlluniau heb wasanaethau cymorth (ag eithrio teleofal).
 - **Tai â Gofal:** sy'n cynnwys tai gofal ychwanegol am rent cymdeithasol a thai gofal ychwanegol ar werth (a elwir yn aml yn 'fyw gyda chymorth' yn y sector preifat) gyda gofal ar gael ar y safle 24/7.
 - **Gofal preswyl:** llety preswyl gyda gofal personol, hynny yw, cartref gofal.
 - **Gofal â nyrsio:** llety preswyl gyda gofal nyrsio, hynny yw, cartref preswyl gyda nyrsio.
 - Mae '**Cam-i-fyny**' yn gyfleuster gofal canolraddol i dderbyn cleifion o'r cartref neu'r gymuned er mwyn osgoi derbyniadau diangen i ysbyty aciwt neu dderbyniadau cynamserol i ofal tymor hir. Mae '**Cam-i-lawr**' yn swyddogaeth gofal canolraddol i dderbyn cleifion o ofal aciwt ar gyfer adsefydlu ac i gefnogi rhyddhad amserol o'r ysbyty.
- Data poblogaeth Llywodraeth Cymru sail-2014¹⁶. Mae SHOP@ yn ffocysu ar amcangyfrifon o'r nifer o bobl hŷn hyd at 2035. Yn nodweddiadol, mae'r model SHOP@ yn defnyddio meincnod o bobl sy'n 75+ oed ar gyfartaledd gan mai dyma'r boblogaeth sy'n fwyaf tebygol o ddefnyddio tai sy'n oedran ddynodedig a thai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn (tabl 1).
- Seilir y cyfraddau mynychder amcangyfrifedig a ddefnyddir fel meincnodau yn SHOP@ ar adolygiad o ddogfennau a chynlluniau awdurdodau lleol/BPRh (lle maent ar gael) yn ogystal â'r dystiolaeth sydd ar gael am ddewisiadau tai a llety pobl hŷn, hynny yw, tybiaethau rhesymedig sy'n seiliedig ar y ffactorau sy'n debygol o effeithio'r galw yn y dyfodol ar gyfer tai sy'n oedran ddynodedig/tai gwarchod am rent cymdeithasol; tai ymddeol preifat; tai gofal ychwanegol; gofal preswyl; gofal â nyrsio; wedi'i fynegi fesul 1000 o boblogaeth oed 75+ (adrannau 3.12-3.16).

¹⁵ <http://www.housingcare.org/index.aspx>

¹⁶ Stats Cymru (2014). Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yng Nghymru, sail-2014, 2014 i 2039.

- Wrth ddefnyddio'r tybiaethau rhesymedig hyn (adran 3.16), cynhyrchir amcangyfrifon o'r galw yn y dyfodol am dai a llety arbenigol ar gyfer pob awdurdod lleol yn seiliedig ar y mynychder tebygol o'r gwahanol fathau o dai/llety, wedi'i luosogi gan y newid yn yr amcanestyniad o'r boblogaeth oedran 75+ tan 2035.
- Defnyddir data amddifadedd¹⁷ i adnabod statws economaidd cymharol y boblogaeth ym mhob awdurdod lleol i amcangyfrif anghenion tai o ran deiliadaeth, am rent ac ar werth (adran 3.16; Atodiad 3). Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol ar sail ein gwaith yng Nghymru a thrafodaeth gyda chymdeithasau tai ac awdurdodau lleol fod y galw am ranberchnogaeth a pherchnogaeth gyflawn o dai arbenigol ar gyfer pobl hŷn wedi bod yn gymharol gyfyng, felly rydym yn defnyddio'r dystiolaeth hon wrth wneud tybiaethau am y galw am wahanol fathau o ddeiliadaeth yn y dyfodol.

¹⁷ Stats Cymru (2014). Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Demograffeg

Tabl1. Amcanestyniadau o'r boblogaeth dros 75 oed yn y 22 awdurdod lleol Cymreig a Chymru gyfan¹⁸, 2018-2035.

Awdurdod Lleol	2018	2025	2030	2035
Blaenau Gwent	6,314	7,838	8,421	9,146
Pen-y-bont ar Ogwr	13,298	16,960	18,830	20,766
Caerffili	15,253	19,943	22,094	24,177
Caerdydd	23,565	29,710	33,986	38,998
Sir Gaerfyrddin	20,212	25,780	28,646	31,360
Ceredigion	8,002	10,941	12,064	12,950
Conwy	15,650	19,185	20,871	22,818
Sir Ddinbych	10,309	13,212	14,463	15,608
Sir y Fflint	14,423	19,650	21,905	23,783
Gwynedd	13,701	17,151	18,434	19,732
Ynys Môn	8,141	10,388	11,291	12,194
Merthyr Tudful	4,928	6,173	6,895	7,734
Sir Fynwy	10,873	14,416	16,397	18,112
Castell Nedd Port Talbot	13,512	16,958	19,022	21,113
Casnewydd	12,391	15,170	16,420	18,265
Sir Benfro	14,677	18,992	20,975	22,591
Powys	16,829	21,952	24,378	26,365
Rhondda Cynon Taf	20,139	25,412	27,519	29,793
Abertawe	23,116	28,462	31,168	34,092
Torfaen	8,667	11,016	12,271	13,469
Bro Morgannwg	11,730	16,108	18,181	20,238
Wrecsam	12,192	15,932	17,807	19,435
CYMRU	297,922	381,350	422,039	462,740

3.06 Disgwylir i'r boblogaeth dros 75 oed yng Nghymru gynyddu dros 54% rhwng 2018 a 2035.

3.07 Mae adroddiad diweddar gan Brifysgol Bangor¹⁹ yn dod i'r casgliad mai pobl hŷn yw'r rhan o'r boblogaeth yng Nghymru sydd fwyaf ei maint ac sy'n cynyddu gyflymaf, gan danlinellu y bydd 1 o bob 4 person yn 65 oed erbyn 2036, ac mai'r boblogaeth dros 85 oed fydd yn cynyddu fwyaf. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud dadl economaidd dros fuddsoddi mewn gwasanaethau atal ar y gwahanol cyfnodau o fywyd, yn arbennig mewn perthynas â phobl hŷn.

¹⁸ Llywodraeth Cymru (2014). Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yng Nghymru, sail-2014, 2014 i 2039.

¹⁹ Edwards, R.T. *et al.* (2018). Living well for longer: The economic argument for investing in the health and wellbeing of older people in Wales.

Y ddarpariaeth bresennol a dadansoddiad cymharol

3.08 Mae'r dadansoddiad cymharol a gynhyrchwyd yn dangos y ddarpariaeth bresennol (unedau/gwelyau) a 'mynychder' y gwahanol fathau o dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn sydd o dan ystyriaeth (tai pobl hŷn am rent, tai ymddeol pobl hŷn ar werth, tai â gofal – hynny yw, tai gofal ychwanegol – am rent ac ar werth, gofal preswyl a gofal preswyl â nyrsio) ym mhob awdurdod lleol. Golyga mynychder nifer yr unedau /gwelyau fesul pob 1000 o'r boblogaeth oedran 75+ (gan ddefnyddio poblogaeth 2018 oed 75+ yn nhabl 1) ym mhob awdurdod lleol/yn genedlaethol. Mae Tabl 2 yn dangos sut mae'r ddarpariaeth bresennol ym mhob awdurdod lleol o dai ar gyfer pobl hŷn, tai â gofal, gofal preswyl a gofal preswyl â nyrsio yn cymharu gydag awdurdodau lleol eraill a gyda'r cyfartaledd cenedlaethol (darpariaeth bresennol a mynychder). Mae'r ddarpariaeth bresennol (unedau/gwelyau) yn nhabl 2 yn seiliedig ar ddata oddi wrth yr Elderly Accommodation Counsel (EAC), ag eithrio ble mae'r Housing LIN wedi derbyn data yn uniongyrchol oddi wrth awdurdod lleol^{20,21}. Defnyddiwyd data yr EAC oherwydd mae'n defnyddio diffiniadau sy'n cyd-fynd orau â diffiniadau o dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn (paragraff 3.05). Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi ystadegau cenedlaethol am dai gwarchod a thai gofal ychwanegol²²; mae'r ffigurau yn y trydydd categori yn nhabl 2 yn ymwneud â thai gofal ychwanegol ac mae gwahaniaeth bach rhwng ystadegau Llywodraeth Cymru a data'r EAC. Y rhesymau tebygol yw gwahaniaethau bach yn y diffiniadau neu amseru casglu data. Mae'r ffigurau yn y categori cyntaf yn nhabl 1 yn uwch nag ystadegau Llywodraeth Cymru ar gyfer tai gwarchod, yn adlewyrchu'r ffaith bod diffiniad yr EAC fymryn yn ehangach na 'thai gwarchod' ac maent yn cynnwys peth tai oedran ddynodedig, er enghraifft, na fyddai'r landlord efallai yn diffinio bellach yn dai gwarchod. Mae'r Housing LIN yn ymwybodol bod peth tai gwarchod wedi cael eu 'hail-gategoreiddio' yn y modd hwn ond eu bod yn parhau i fod yn ddynodedig i bobl hŷn.

3.09 O ran tai pobl hŷn (am rent cymdeithasol), y cyfartaledd mynychder cenedlaethol yw 92 uned fesul pob 1,000 poblogaeth 75+. O ran tai pobl hŷn (preifat), y cyfartaledd mynychder cenedlaethol yw 14 uned fesul pob 1,000 poblogaeth 75+. Mynychder y cyfanswm o dai pobl hŷn yw 106 uned fesul pob 1,000 poblogaeth 75+.

3.10 O ran tai â gofal (am rent cymdeithasol), y cyfartaledd mynychder cenedlaethol yw 8 uned fesul pob 1,000 poblogaeth 75+. O ran tai â gofal (preifat), y cyfartaledd mynychder cenedlaethol yw 2 uned fesul pob 1,000 poblogaeth 75+. Mynychder y cyfanswm o dai â gofal yw 10 uned fesul pob 1,000 poblogaeth 75+.

²⁰ Housing LIN (2018). Assessment of Older Person's Housing and Accommodation including with Care and Care Ready: For Cardiff & Vale of Glamorgan Regional Partnership Board.

²¹ Housing LIN (2018). Assessment of Specialist Housing and Accommodation Need for Older People in West Wales for West Wales Care Partnership.

²² <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/social-landlord-housing-stock-and-rents-31-march-2019-906.pdf>

- 3.11 O ran gofal preswyl, y cyfartaledd mynychder cenedlaethol yw 38 gwely fesul pob 1,000 poblogaeth 75+. O ran gofal preswyl â nyrsio, y cyfartaledd mynychder cenedlaethol yw 36 gwely fesul pob 1,000 poblogaeth 75+.

Awdurdod Lleol	Tai pobl hŷn (am rent cymdeithasol)		Tai pobl hŷn (preifat ar werth)		Tai â gofal (am rent cymdeithasol)		Tai â gofal (ar werth)		Gofal preswyl		Gofal â nyrsio	
	Unedau	Mynychder	Unedau	Mynychder	Unedau	Mynychder	Unedau	Mynychder	Gwelyau	Mynychder	Gwelyau	Mynychder
Blaenau Gwent	873	138	0	0	85	13	0	0	137	22	267	42
Pen-y-bont ar Ogwr	561	42	174	13	84	6	0	0	559	42	392	29
Caerffili	1,494	98	36	2	128	8	0	0	433	28	436	29
Caerdydd	1,814	77	1,055	45	157	7	110	5	711	30	1,051	45
Sir Gaerfyrddin	2,912	144	216	11	189	9	0	0	1,044	52	505	25
Ceredigion	411	51	63	8	48	6	0	0	316	39	271	34
Conwy	1,781	114	600	38	159	10	204	13	713	46	635	41
Sir Ddinbych	974	94	170	16	91	9	48	5	792	77	294	29
Sir y Fflint	2,357	163	101	7	143	10	43	3	533	37	304	21
Gwynedd	872	64	86	6	217	16	16	1	570	42	612	45
Ynys Môn	724	89	31	4	117	14	0	0	441	54	177	22
Merthyr Tudful	429	87	0	0	60	12	0	0	198	40	140	28
Sir Fynwy	859	79	275	25	21	2	36	3	214	20	351	32
Castell Nedd Port Talbot	945	70	0	0	115	9	0	0	374	28	632	47
Casnewydd	936	76	186	15	161	13	0	0	456	37	465	38
Sir Benfro	1,046	71	73	5	128	9	0	0	479	33	483	33
Powys	2,077	123	88	5	40	2	18	1	550	33	509	30
Rhondda Cynon Taf	1,547	77	0	0	60	3	0	0	725	36	816	41
Abertawe	2,175	94	746	32	136	6	86	4	695	30	1,127	49
Torfaen	1,136	131	42	5	35	4	0	0	332	38	316	36
Bro Morgannwg	625	53	204	17	42	4	0	0	464	40	462	39
Wrecsam	880	72	36	3	87	7	27	2	689	57	518	42
CYMRU	27,428	92	4,182	14	2,303	8	588	2	11,425	38	10,763	36

Tabl 2. Y ddarpariaeth bresennol o dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn ym mhob awdurdod lleol ac yn genedlaethol (2018/19).

(Ffynhonnell: Elderly Accommodation Counsel)

Data cyd-destunol a thybiaethau

3.12 Rydym wedi defnyddio tystiolaeth pan fo hynny ar gael o:

- Datganiadau safle'r farchnad a strategaethau comisiynu a gyhoeddwyd gan awdurdodau lleol neu Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) sy'n cyfeirio at amcangyfrifon, targedau neu ddatganiadau tebyg ynglŷn â thai a llety pobl hŷn.
- Datganiadau awdurdodau lleol a gyhoeddwyd am ddefnydd presennol a'r defnydd a fwriedir o, er enghraifft, gwelyau gofal preswyl neu ofal â nyrsio ar gyfer pobl hŷn.

3.13 Mae Tablau 70-91 (Atodiad 2) yn crynhoi tystiolaeth a gyhoeddwyd am fwriadon comisiynu a datblygu y 22 awdurdod lleol o ran tai pobl hŷn, tai â gofal, gofal preswyl a gofal â nyrsio.

3.14 Mae'r ymchwiliad ansoddol gyda phobl hŷn y mae'r Housing LIN wedi'i gynnal yng Nghymru (a mannau eraill yn y DU) dros y 18 mis diwethaf yn dangos bod:

- Tai pobl hŷn: mae diddordeb gan bobl hŷn mewn symud i ddarpariaeth bresennol a thai newydd ar gyfer pobl hŷn, am rent neu ar werth, os yw'n ddigon deniadol, e.e. i ddenu pobl i symud i dŷ llai neu fwy priodol ei faint.
- Tai â gofal: mae peth diddordeb mewn symud i ddarpariaeth bresennol neu dai â gofal newydd, am rent neu ar werth, os yw'n ddigon ddeniadol. Mae'r opsiwn yma yn dueddol o fod o lai o ddiddordeb o'i gymharu â'r opsiwn o dai i bobl hŷn.
- Gofal preswyl: does dim diddordeb neu ddiddordeb cyfyngedig iawn mewn symud i gartref gofal preswyl.
- Gofal â nyrsio: does ond diddordeb mewn symud i gartref gofal preswyl gyda nyrsio pan fod dim byd arall amdani oherwydd anghenion gofal uchel neu gymhleth.

3.15 Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, tueddiadau comisiynu cyffredinol yr awdurdodau lleol yw:

- Twf disgwyledig mewn comisiynu a galluogi gwahanol fathau o dai ar gyfer pobl hŷn, e.e. datblygu tai sy'n 'barod am ofal'²³ cyfoes am rent cymdeithasol; gall hyn gynnwys tai gwarchod cyfoes (sy'n cynnwys cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau cymorth) a thai oedran ddynodedig (efallai nad yw'n cynnwys cyfleusterau cymunedol neu gymorth gan staff) a modelau tebyg o dai ymddeol yn y sector preifat.
- Twf disgwyledig mewn comisiynu tai gofal ychwanegol, yn bennaf am rent cymdeithasol ond gyda pheth datblygu gyda dewis o ran deiliadaeth.

²³ Mae tŷ sy'n barod am ofal fel arfer yn golygu bod cartref yn addasadwy dros gyfnod o amser er mwyn cwrdd ag anghenion sy'n newid, gan gynnwys lle ar gyfer offer ac addasiadau. Drwy ddylunio da gellir adeiladu tai sy'n fwy addas ar gyfer cwrdd ag anghenion posib yn y dyfodol, er enghraifft, yr angen i gael gofalwr dros nos, lle cadw ar gyfer sgwter symudedd a lle i gynnal annibyniaeth.

- Dim twf ychwanegol yn nefnydd gofal preswyl gan fod dim diddordeb neu ddiddordeb cyfyngedig ymysg awdurdodau lleol mewn ehangu defnydd gofal preswyl a diddordeb cyfyng ymysg pobl hŷn mewn symud i gartref gofal preswyl.
- Twf disgwyledig yn nefnydd gofal â nyrsio oherwydd y cynnydd yn y boblogaeth hŷn sy'n debyg o fod ag anghenion gofal dwys, yn cynnwys dementia.
- Awydd i osgoi mynediadau i'r ysbyty neu i ofal preswyl drwy'r defnydd o lety cam-i-fyny a cham-i-lawr.

3.16 Defnyddir y dystiolaeth gyd-destunol yma ynghyd â phrofiad yr Housing LIN o weithio gyda 5 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a nifer sylweddol mwy o awdurdodau lleol yn Lloegr mewn perthynas â llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn fel sail ar gyfer y tybiaethau rhesymedig canlynol o ran asesu'r galw am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yn ardal pob awdurdod lleol tan 2035.

1. Tai pobl hŷn:

- a) Os yw'r gyfradd fynychder ar gyfer y ddarpariaeth bresennol yn ardal awdurdod lleol yn llai na chyfartaledd y gyfradd fynychder genedlaethol bresennol, tybir y bydd y galw yn y dyfodol yn tueddu tuag at gyfartaledd y gyfradd genedlaethol. Os yw'r gyfradd fynychder ar gyfer y ddarpariaeth bresennol yn ardal awdurdod lleol yn gyfartal â neu yn uwch na chyfartaledd y gyfradd fynychder genedlaethol bresennol, tybir y bydd y galw yn y dyfodol yn tueddu adlewyrchu'r cyfraddau mynychder presennol. Fodd bynnag, oherwydd diffyg data lleol, ni ellir gwneud tybiaethau am faint mor briodol fydd y ddarpariaeth bresennol yn y dyfodol a sut y gallai hynny effeithio ar y galw yn y dyfodol. Gan hynny, tybir na fydd y gyfradd fynychder yn y dyfodol yn fwy na 10% yn uwch na chyfartaledd y gyfradd fynychder genedlaethol bresennol.
- b) Mae'r amcangyfrif o'r galw am unedau am rent cymdeithasol ac unedau ar werth (yn cynnwys rhanberchnogaeth) yn seiliedig ar ddefnydd o'r data yn y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) (Atodiad 3) a phrofiad yr Housing LIN o weithio gydag awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru. Defnyddir y dull yma yn absenoldeb casglu data cynradd yn benodol ar gyfer yr asesiad hwn er mwyn cyflwyno tystiolaeth benodol o'r galw am ddeiliadaethau gwahanol o dai ar gyfer pobl hŷn. Gwneir y tybiaethau canlynol er mwyn amcangyfrif'r galw am unedau o dai pobl hŷn a thai â gofal am rent ac ar werth (gan gynnwys rhanberchnogaeth):
 - i. Os yw mwy na 15% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) awdurdod lleol yn y 10% mwyaf difreintiedig yn genedlaethol, tybir y bydd 90% o'r galw am unedau am rent cymdeithasol, a 10% o'r galw am unedau ar werth (yn cynnwys rhanberchnogaeth).
 - ii. Os yw rhwng 5% i 15% o AGEHI awdurdod lleol yn y 10% mwyaf difreintiedig yn genedlaethol, tybir y bydd 75% o'r galw am unedau

am rent cymdeithasol, a 25% o'r galw am unedau ar werth (yn cynnwys rhanberchnogaeth).

- iii. Os yw llai na 5% o AGEHI awdurdod lleol yn y 10% mwyaf difreintiedig yn genedlaethol, tybir y bydd 65% o'r galw am unedau am rent cymdeithasol, a 35% o'r galw am unedau ar werth (yn cynnwys rhanberchnogaeth).

- c) Yn seiliedig ar asesiadau o'r galw yn y dyfodol am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn a gynhaliwyd yn flaenorol gan yr Housing LIN (yng Nghymru a thu hwnt yn y DU²⁴), tybir y bydd 50% o'r galw am dai pobl hŷn yn dai oedran ddynodedig, a 50% yn dai gwarchod cyfoes.

2. Tai â gofal:

- a) Oherwydd y diddordeb mawr sydd gan awdurdodau lleol (Atodiad 2) mewn datblygu mwy o dai gofal ychwanegol, mae amcangyfrifon am y galw am dai â gofal yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol²⁵:

- i. Os yw cyfradd fynychder y ddarpariaeth bresennol mewn ardal awdurdod lleol yn gyfartal â neu'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, tybir y bydd y galw yn y dyfodol yn tueddu cynyddu tuag at 15 uned i bob 1000 o bobl oed 75+.
- ii. Os yw cyfradd fynychder y ddarpariaeth bresennol mewn ardal awdurdod lleol eisoes yn 15 uned (neu'n agos at hynny) ond o dan 20 uned, tybir y bydd y galw yn y dyfodol yn tueddu cynyddu tuag at 20 uned i bob 1000 o bobl oed 75+.
- iii. Os yw cyfradd fynychder y ddarpariaeth bresennol mewn ardal awdurdod lleol eisoes yn 20 uned ond o dan 25 uned, tybir y bydd y galw yn y dyfodol yn tueddu cynyddu tuag at 25 uned i bob 1000 o bobl oed 75+.

- b) Mae'r dadansoddiad o'r galw amcangyfrifedig am unedau am rent cymdeithasol ac unedau ar werth (yn cynnwys rhanberchnogaeth) yr un peth â'r hyn a nodir yn 1b (uchod).

- 3. Gofal preswyl: Tybir na fydd cynnydd net yn nifer y gwelyau erbyn 2035, yn seiliedig ar y diddordeb mawr a fynegir gan awdurdodau lleol i leihau defnydd gofal preswyl a chynyddu defnydd opsiynau eraill (ag eithrio os yw awdurdod lleol eisoes wedi mynegi ffordd arall o weithredu²⁶).

²⁴ Yn seiliedig ar asesiadau o anghenion tai ar gyfer mwy na 50 o awdurdodau lleol yn Lloegr a Chymru yn defnyddio methodolegau SHOP@ yr Housing LIN.

²⁵ Yn tynnu ar brofiad o gyflawni asesiadau o'r angen am dai gyda gofal ychwanegol i fwy na 50 o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yn defnyddio methodolegau SHOP@ yr Housing LIN.

²⁶ Housing LIN (2018). Assessment of Specialist Housing and Accommodation Need for Older People in West Wales for West Wales Care Partnership.

4. Gofal preswyl â nyrsio: yn seiliedig ar dystiolaeth awdurdodau lleol ac amcanestyniadau demograffeg o'r boblogaeth oed 75+ sy'n cynyddu'n sylweddol erbyn 2035 (gyda chynnydd cysylltiedig yn mynychder anghenion gofal cymhleth), tybir y bydd y galw yn debyg o gynyddu. Os yw cyfradd fynychder y ddarpariaeth bresennol yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol presennol, tybir y bydd y galw yn y dyfodol yn cynyddu tuag at y cyfartaledd cenedlaethol. Os yw cyfradd fynychder y ddarpariaeth bresennol yn gyfartal â neu'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol presennol, tybir y bydd y galw yn y dyfodol yn adlewyrchu cyfraddau mynychder presennol. DS. oherwydd diffyg data, ni wnaethpwyd unrhyw dybiaethau am briodoldeb y ddarpariaeth bresennol yn y dyfodol.
5. Llety cam-i-fyny a cham-i-lawr: does dim data cenedlaethol am y defnydd presennol na'r galw tebygol yn y dyfodol am y math yma o lety. At ddiben yr asesiad hwn o'r galw yn y dyfodol, ac yn seiliedig ar brofiad yr Housing LIN o weithio gydag awdurdodau lleol mewn perthynas â llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn, tybir y gellir defnyddio tua 3% o'r galw am dai â gofal am rent at y diben hwn.

Cafeatau a chyfyngiadau

3.17 Mae'r cafeatau a chyfyngiadau canlynol yn berthnasol i'r amcangyfrif meintiol bwrdd desg hwn o'r galw am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn:

- Mae'r ymarfer bwrdd desg hwn yn defnyddio data eilaidd i gynhyrchu amcangyfrifon lefel uchel o'r galw yn y dyfodol am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn.
- Dylid defnyddio'r asesiad hwn fel *canllaw* at y galw yn y dyfodol am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn. Er mwyn mireinio'r asesiad, byddai'n rhaid cynnal ymchwili pellach sydd y tu hwnt i gwmpas y gwaith hwn. Er enghraifft, ymchwili ansoddol gyda phobl hŷn ynglŷn â'u dewisiadau tai, trafodaethau manwl gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill ynghylch ffactorau lleol a allai effeithio ar y galw yn y dyfodol.
- Os yw awdurdodau lleol eisoes wedi cynhyrchu amcangyfrifon o'r galw yn y dyfodol am dai a llety ar gyfer pobl hŷn^{27,28}, rydym wedi defnyddio'r rhain os oeddynt ar gael o fewn yr amser oedd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd gan yr Housing LIN yn yr awdurdodau lleol hyn yn lled debyg i'r dull a ddefnyddir yma.
- Mae'r amcangyfrifon o'r galw am unedau am rent cymdeithasol ac unedau ar werth yn seiliedig ar ddefnydd o ddata'r AGEHI, tystiolaeth awdurdodau lleol os yw hynny ar gael, a'n dealltwriaeth o'r tybiaethau ymarferol a wneir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a datblygwyr tai eraill.

²⁷ Housing LIN (2018). Assessment of Older Person's Housing and Accommodation including with Care and Care Ready: For Cardiff & Vale of Glamorgan Regional Partnership Board.

²⁸ Housing LIN (2018). Assessment of Specialist Housing and Accommodation Need for Older People in West Wales for West Wales Care Partnership.

- Mae'r amcangyfrifon a wneir o'r galw am lety cam-i-fyny a cham-i-lawr yn seiliedig ar brofiad yr Housing LIN o'r math yma o wasanaethau tai a'n dehongliad o'r dystiolaeth sydd ar gael.

4. Amcangyfrif o'r galw am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn

4.01 Canlyniad gweithredu'r dull a amlinellir yn Adran 3 yw adnabod y ddarpariaeth bresennol a gwneud amcangyfrifon meintiol o'r galw yn y dyfodol am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn o 2020/21 hyd at 2035/36 fesul awdurdod lleol, yn cynnwys:

- Tai cymdeithasol oedran ddynodedig/tai gwarchod am rent cymdeithasol.
- Tai ymddeol preifat ar werth.
- Tai gofal ychwanegol, am rent cymdeithasol ac ar werth.
- Darpariaeth gofal preswyl.
- Darpariaeth gofal preswyl â nyrsio.
- Darpariaeth llety cam-i-fyny a cham-i-lawr.

Y ffynhonnell wybodaeth ar gyfer y ddarpariaeth bresennol o lety arbenigol yn Adran 4 yw ffigurau cyflenwad 2018 yr Elderly Accommodation Counsel.²⁹ Mae'r EAC yn cynnal cyfeiriadur o'r holl lety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yn y DU. Defnyddiwyd y gronfa ddata sy'n sail i'r cyfeiriadur i bennu'r stoc o dai arbenigol ym mhob awdurdod lleol. Mae'r gronfa ddata yn cael ei diweddarau'n flynyddol, felly mae'n bosib na fydd y niferoedd o unedau yn cydweddu'n union â'r niferoedd a gadwir yn fewnol gan awdurdodau lleol. Er hynny, cronfa ddata'r EAC yw'r unig gronfa ddata gynhwysfawr wedi'i choladu o lety arbenigol ar gyfer pobl hŷn ar draws Cymru a gweddill y DU.

4.02 Mae'r dadansoddiad hwn yn adnabod y gwahaniaeth amcangyfrifedig rhwng y ddarpariaeth bresennol a'r asesiad o'r galw yn y dyfodol am dai a llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn, hynny yw, y tai a llety arbenigol ychwanegol y byddai eu hangen er mwyn cwrdd â'r galw a adnabyddir at 2035. Dangosir hyn:

- Fesul pob awdurdod lleol, ac
- Yn ei grynsyth ar gyfer Cymru gyfan.

²⁹ Elderly Accommodation Counsel (2018).

Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol: Blaenau Gwent

4.03 Defnyddir y rhagdybiaethau yn adran 3.16 a thystiolaeth lleol (Atodiad 2) i amcangyfrif y galw yn y dyfodol am dai a llety pobl hŷn ym Mlaenau Gwent.

4.04 Mae SHOP@ yn defnyddio'r rhagdybiaethau hyn i amcangyfrif y galw yn y dyfodol. Mae Tabl 3 yn dangos y ddarpariaeth bresennol o dai a llety pobl hŷn ym Mlaenau Gwent wedi'i fynegi fel cyfradd fynychder fesul pob 1,000 o bobl oed 75+, y gyfradd genedlaethol Cymreig a'r amcangyfrif o gyfraddau mynychder yn 2035.

Tabl 3. Mynychder SHOP@: Blaenau Gwent

	Unedau/gwelyau presennol	Cyfradd fynychder presennol	Cyfradd fynychder Cymru	Amcangyfrif cyfradd fynychder 2035
Tai pobl hŷn	873	138	106	116
Tai â gofal	85	13	10	20
Gofal preswyl	137	22	38	15
Gofal â nyrsio	267	42	36	42

4.05 Os defnyddir y cyfraddau mynychder amcangyfrifedig o dai a llety pobl hŷn (Tabl 3) yn y model SHOP@, rhagwelir y galw canlynol yn y dyfodol ym Mlaenau Gwent.

Tabl 4. Amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol ym Mlaenau Gwent (unedau/gwelyau) hyd at 2035.

	Darpariaeth bresennol (unedau/gwelyau)	2025	2030	2035
Tai pobl hŷn	873	1,019	1,036	1,061
Tai â gofal	85	125	152	183
Gofal preswyl	137	137	137	137
Gofal â nyrsio	267	329	354	384

4.06 Er mwyn cyfrifo'r diffyg yn y gwahanol fathau o dai a llety, tynnir y ddarpariaeth bresennol i ffwrdd o'r amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol (Tabl 5).

4.07 Mae Tabl 5 yn dangos yr amcangyfrif o'r galw am wahanol fathau o ddeiliadaeth ar gyfer tai pobl hŷn a thai â gofal ym Mlaenau Gwent drwy ddefnyddio'r amcangyfrif o'r galw yn y dyfodol a'r dadansoddiad o ddeiliadaeth sy'n seiliedig ar AGEHI (90%:10%) o Atodiad 3, sef unedau am rent cymdeithasol ac unedau ar werth.

Tabl 5. Amcangyfrif o'r galw net ym Mlaenau Gwent (diffyg unedau/gwelyau) hyd at 2035.

	2025	2030	2035
Tai pobl hŷn	146	163	188
<i>Am rent</i>	<i>131</i>	<i>146</i>	<i>169</i>
<i>Ar werth</i>	<i>15</i>	<i>16</i>	<i>19</i>
Tai â gofal	40	67	98
<i>Am rent</i>	<i>36</i>	<i>60</i>	<i>88</i>
<i>Ar werth</i>	<i>4</i>	<i>7</i>	<i>10</i>
Gofal preswyl	0	0	0
Gofal â nyrsio	62	87	117

DS. Efallai na fydd y cyfansymiau yn grwn oherwydd talgrynnu. Nid yw'r amcangyfrifon o'r galw yn gronnus.

Crynodeb

4.08 I grynhoi, mae hyn yn dangos mai'r amcangyfrif o'r galw net yn y dyfodol ym Mlaenau Gwent hyd at 2035 yw:

